# Chwarae yn y Parc

HAEN 2





©ESIS, Tŷ Dysgu, Cefn Coed, Nantgarw, Cardiff, CF15 7QQ
Tel: 01443 827500    Fax: 01443 827599
E-mail: esis@esis.org.uk  Website: www.esis.org.uk

First Published by ESIS 2007

Author: Nia Einir Williams
Design & Illustrations: Icon Creative Design
Printer: Westdale Press, Cardiff

All rights reserved. No part of this publication may be reproduced, stored in a retrieval system, or transmitted in any form or any means, electronic, mechanical, photocopying, recording otherwise, without the prior consent of the copyright owner.



Prynhawn da bawb,
a chroeso i'r parc!
Del y ci defaid ydw i.
Prynhawn da.
Prynhawn da.
Prynhawn da.
Prynhawn da.


Barod am y gêm bêl-droed? Tîm y cŵn a thîm y cathod.
Beth sy'n bod?
Mae bola tost 'da fi.
Ciciwch y bêl.
Dyma'r cŵn a'r cathod yn chwarae pêl-droed.
Y sgôr: Cathod 3 Cŵn 2
Y cathod sy' wedi ennill! Da iawn, tîm y cathod!


Sut wyt ti yr hwyaden fach?
Sut wyt ti y wiwer goch?
'Dw i'n fendigedig, diolch.
'Dw i'n ardderchog, diolch.
Dyma'r hwyaden a'r wiwer yn chwarae tennis.




Dyma'r gêm rygbi. Mae hi'n hanner amser. Mae'r moch wedi blino. Mae'r cwningod wedi blino. Mae Del, y ci defaid wedi blino.


Rhowch y bêl yn y cylch i sgorio.
Ann ydw i.
Anwen ydw i.
Dyma Ann ac Anwen y llygod.
Mae Ann ac Anwen eisiau'r bêl.
Mae Anwen yn sgorio deg pwynt.
Da iawn, Anwen.



Pawb yn barod?
Sawl gwaith wyt ti'n tisian?
Sgipiwch, neidiwch a dwedwch
- "Doctor, Doctor 'dw i'n teimlo'n dost,
'Dw i'n tisian, 'dw i'n tagu drwy'r nos".
'Dw i'n tisian, 'dw i'n tagu -deg gwaith!
'Dw i'n tisian, 'dw i'n tagu -wyth gwaith.
Y brogaod sy' wedi ennill!




Mae'r ci, y gath a'r llygoden yn rhedeg ras.


'Dw i eisiau dal y llygoden!
'Dw i eisiau dal y gath!
Mae'r gath yn rhedeg ar ôl y llygoden.
Mae'r ci yn rhedeg ar ôl y gath. O! Na!!!


Diwedd
Sut ydych chi?
Ofnadwy - mae coes a braich dost 'da fi.
Gweddol - mae coes dost 'da fi.
O! trueni; mae Pero a Macsen yn dost. Mae coes dost 'da Pero y ci. Mae coes a braich dost 'da Macsen y gath.


Dyma'r moddion. Arhoswch yn y gwely.
Fi sy wedi ennill y ras.
Y llygoden sy' wedi ennill y ras. Mae'r llygoden yn hapus. Mae'r llygoden yn hapus yn bwyta'r caws!